



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adroddiad blynyddol ar sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

Blwyddyn academaidd: 2020 tan 2021



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 30 33 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: [gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylid anfon ymholiadau atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Beth rydym ni'n ei wneud.....	4
Dadansoddi data.....	7
Themâu monitro blynyddol.....	23

Cyflwyniad

Bu'n flwyddyn ddigynsail i addysg gwaith cymdeithasol oherwydd pandemig parhaus Covid-19. Mae hyn wedi effeithio ar bob rhaglen addysgol ac ar fywyd pawb.

Roedd angen i raglenni gwaith cymdeithasol addasu'n barhaus i ateb heriau'r pandemig. Darparwyd rhaglenni trwy ddysgu cyfunol, gydag addysgu'n digwydd ar-lein ac, ar adegau prin, wyneb yn wyneb, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd lleoliadau dros y we hefyd, ond roedd hyn yn amrywio ar draws asiantaethau a bu'n bosibl i rai myfyrwyr fynd ar leoliadau a chyfarfod â phobl wyneb yn wyneb. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn hanfodol i barhad y rhaglenni yn 2020 i 2021. Mae partneriaid cyswllt wedi ymgysylltu a gweithio gyda'r rhaglenni i gefnogi a hybu llesiant myfyrwyr.

Rydym wedi gweithio gyda rhaglenni, a'u cefnogi, i wneud yn siŵr eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb i ddatblygiadau yn ystod y pandemig. Yn ystod yr argyfwng hwn, roeddem am i fyfyrwyr barhau i gael y cyfle gorau i ddysgu a datblygu'n weithwyr cymdeithasol proffesiynol, gan flaenoriaethu eu hiechyd, eu llesiant a'u diogelwch.

Mae'r broses fonitro flynyddol ar gyfer y cyfnod hwn wedi ystyried y gweithgareddau ychwanegol y bu'n rhaid i raglenni eu rhoi ar waith oherwydd effaith pandemig Covid-19. Felly, rydym wedi sicrhau ansawdd pob rhaglen ar sail craffu ar y wybodaeth a roddwyd i ni fel rhan o'r trefniadau monitro blynyddol. Os oedd angen gwybodaeth ychwanegol arnom, dilynom hynny i fyny trwy rith-gyfarfodydd neu alwadau ffôn.

1. Beth rydym ni'n ei wneud

Rhan o'n rôl yw gwneud yn siŵr bod y gweithlu gofal cymdeithasol wedi'i hyfforddi'n briodol a'i fod yn addas i ymarfer, fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn fedrus iawn i wneud eu gwaith.

Rydym yn gwybod bod dysgu o ansawdd uchel yn paratoi ac yn cefnogi pobl, fel bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r dulliau cywir i ymarfer. A ninnau'n rheoleiddiwr addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol yng Nghymru, rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Disgrifir y rhain yn y *Fframwaith ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru 2018 a'r Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwysu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018*¹.

Hefyd, rydym yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod digon o weithwyr cymdeithasol yn cael eu hyfforddi. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr a phrifysgolion i asesu faint o weithwyr cymdeithasol y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu faint o leoedd hyfforddi y bydd eu hangen.

Ein hymagwedd at reoleiddio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

Mae pum egwyddor wrth wraidd ein hymagwedd at reoleiddio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol:

Cysondeb Rydym ni'n dehongli ac yn cymhwyso'r rheolau a'r gofynion sy'n gosod y safonau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol proffesiynol yn gyson.

Trylowyder Mae gennym system dryloyw ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd rhaglenni. Byddwn yn rhannu canlyniadau gweithgarwch rheoleiddio gyda darparwyr dysgu o fewn yr amserlenni datganedig ac yn cyhoeddi adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol.

Ymrwymiad i wella'n barhaus Bydd ein prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar sut y gall rhaglenni cymeradwy ddangos gwelliant parhaus ac ymrwymiad i wella ansawdd. Hefyd, byddwn yn adolygu prosesau rheoleiddio yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n addas at y diben ac yn adlewyrchu arfer gorau.

Cymesuredd Nid ydym am osod baich diangen ar ddarparwyr rhaglenni i fodloni gofynion rheoleiddio. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, byddwn yn defnyddio systemau sicrhau ansawdd y rhaglenni eu hunain, lle y bo'n bosibl.

Cynwysoldeb Rydym yn cynnwys myfyrwyr, cyflogwyr, pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr wrth sicrhau ansawdd rhaglenni gwaith cymdeithasol cymeradwy. Mae hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau pan fyddwn yn craffu ar raglenni.

1. Ar gael ar: gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/rheoleiddio-addysg-a-hyfforddiant-gwaith-cymdeithasol

Ein gwaith

Mae ein gwaith yn cynnwys cymeradwyo, monitro, adolygu ac archwilio rhaglenni ar lefelau cymhwysu ac ôl-gymhwysu.

Mae'n rhaid i bob cwrs fodloni'r safonau gofynnol, fel eu bod yn arwain at ymarferwyr hyderus a chymwys.

Rydym yn parhau i gymeradwyo:

- wyth rhaglen radd gwaith cymdeithasol mewn saith prifysgol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- pum rhaglen israddedig (y mae un ohonynt trwy lwybr dysgu o bell)
- tair rhaglen lefel meistr.

Darparwyd y rhaglenni Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol, Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol am y tro diwethaf eleni. Bwriadwyd i'r rhain orffen diwedd 2020, ond rhoddwyd estyniad iddynt oherwydd y pandemig, fel na fyddai myfyrwyr a oedd yn cyflwyno gwaith dan anfantais.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer rhaglenni ôl-gymhwysu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol ar draws Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn cymeradwyo:

- dwy raglen Cadarnhau Ymarfer
- pum rhaglen Asesu a Goruchwyllo Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol
- un cymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP)
- un Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol (TMDP).

Mae ein holl weithgareddau sicrhau ansawdd wedi cael eu cyflawni trwy ddadansoddiad bwrdd gwaith ar gyfer y cyfnod hwn, ar sail y wybodaeth monitro blynyddol a gyflwynwyd.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r Gynghrair wrth i flwyddyn olaf y rhaglenni uchod gael ei darparu a pharhaodd cyflwyniadau terfynol ar gyfer aseiniadau tan ddiwedd Medi 2021.

Eleni, gosodom un amod a gwnaethom 15 argymhelliad i raglenni ar lefel gymhwysu.

Ar gyfer rhaglenni ôl-gymhwysu, gwnaethom 17 argymhelliad. Ni wnaeth dwy raglen asesu a goruchwyllo myfyrwyr gwaith cymdeithasol gwblhau gweithgareddau'r adolygiad monitro blynyddol. Roedd un rhaglen wedi atal astudiaethau oherwydd y pandemig, felly nid oedd wedi cwblhau cylch blynyddol. Mae'r rhaglen arall wedi'i hoedi, oherwydd cafodd ei hatal y llynedd oherwydd diffyg myfyrwyr.

Derbyniom:

- bum cais i wneud mân addasiadau i raglenni fel y gallent fodloni'r gofynion o ran lleoliadau ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol, yr oedd y pandemig wedi tarfu arnynt
- ni chawsom gwynion nac achos dros gynnal ymchwiliad â ffocws.

Rydym wedi parhau i gefnogi rhaglenni yn ystod pandemig Covid-19, drwy'r cyfarfodydd partneriaeth ac yn unigol lle'r oedd angen. Cadwom ein dull hyblyg, gan seilio ein penderfyniadau ar egwyddorion tegwch a chymesuredd, gan sicrhau hefyd nad oedd perygl i gymhwysedd a safonau.

Cwblhaom adolygiad o'n rheolau, sydd wedi'u cadarnhau. Mae hyn yn golygu y gallwn newid y gofynion ar gyfer cymeradwyo rhaglenni gradd mewn gwaith cymdeithasol os bydd argyfwng cenedlaethol yn y dyfodol sy'n debygol o effeithio ar ddarparu rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol, er mwyn caniatáu i fyfyrwyr symud ymlaen.

2. Dadansoddi data

Fel rhan o'n monitro blynyddol, mae'n rhaid i raglenni cymeradwy roi gwybodaeth i ni am sawl agwedd ar y rheolaeth ar eu rhaglen a'i darpariaeth. Mae hyn yn llywio ein gweithgarwch monitro blynyddol ac mae hefyd yn caniatáu i ni wneud yn siŵr ein bod yn darparu digon o leoedd addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol i fodloni anghenion y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

a. Hyfforddiant cymhwys

Myfyrwyr sy'n cael eu derbyn

Yn 2020 i 2021, cynigiodd rhaglenni cymeradwy ar gyfer cymhwys mewn gwaith cymdeithasol 360 o leoedd – derbyniwyd 72 y cant o'r rhain yn wreiddiol ac ymgwymerwyd â nhw.

Mae Ffigur 1 yn adlewyrchu nifer y myfyrwyr a gofrestrodd ar raglenni ac sydd wedi cwblhau'u blwyddyn academaidd gyntaf.

Ffigur 1

Myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i raglenni cymhwys mewn Gwaith Cymdeithasol

Rhaglen	Llwybr	2018-19			2019-20			2020-21		
		Lleoedd cymeradwy	Nifer wedi'u derbyn	% y lleoedd cymeradwy wedi'u defnyddio	Lleoedd cymeradwy	Nifer wedi'u derbyn	% y lleoedd cymeradwy wedi'u defnyddio	Lleoedd cymeradwy	Nifer wedi'u derbyn	% y lleoedd cymeradwy wedi'u defnyddio
Prifysgol Bangor MA	2 flynedd amser llawn	21	22	105%	21	15	71%	21	19	90%
Prifysgol Caerdydd MA	2 flynedd amser llawn	50	48	96%	50	38	76%	50	31	62%
Prifysgol Abertawe MSc	2 flynedd amser llawn	20	19	95%	20	20	100%	20	16	80%
Prifysgol Metropolitan Caerdydd Israddedig	2 flynedd amser llawn	39	26	67%	39	30	77%	39	25	64%
Prifysgol Metropolitan Caerdydd - Penybont Israddedig	3 blynedd amser llawn	16	16	100%	16	15	100%	16	7	44%
Prifysgol Glyndwr Israddedig	3 blynedd amser llawn	36	36	100%	36	33	92%	36	26	72%

Myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i raglenni cymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol

Y Brifysgol Agored Cymru Israddedig (dysgu o bell)	3 i 6 blynedd	48	48	100%	65	60	92%	70	70	100%
Prifysgol Abertawe Israddedig	3 blynedd amser llawn	30	33	110%	30	30	100%	30	28	93%
Prifysgol De Cymru Israddedig	3 blynedd amser llawn	32	22	69%	35	28	80%	35	22	66%
Cyfanswm		292	270	92%	312	269	86%	317	244	77%

Yn ystod 2020 i 2021, dechreuodd 244 o fyfyrwyr newydd raglenni gradd mewn gwaith cymdeithasol, sef 25 yn llai o fyfyrwyr na ffigur y llynedd.

Roedd hyn yn golygu bod rhaglenni'n llenwi 77 y cant o'r 317 lle cymeradwy a oedd ar gael. Mae hyn yn ategu'r adborth a'r data a gawsom a ddangosodd ostyngiad yn nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau'r rhaglenni. Mae her gynyddol ar draws y DU i recriwtio i'r proffesiwn.

Felly, rydym wedi comisiynu ymchwil i adolygu'r system addysg ar gyfer gwaith cymdeithasol. Y nod yw rhoi argymhellion ar gyfer fframwaith cymhwyso myfyrwyr gwaith cymdeithasol trwy lwybrau gwahanol sy'n addas at y diben yn y dyfodol ac sy'n gallu llywio penderfyniadau yn y dyfodol ar bolisi a chyllido cenedlaethol.

Bydd hyn yn cwmpasu lefelau cyllid i gefnogi hyfforddiant cymhwyso, gan gynnwys:

- ffioedd
- bwrsariaethau
- cyflogau ar gyfer llwybrau statws cyflogedig
- cymhellion i hyfforddi
- diwygio sut yr eir ati i neilltuo gweithleoedd cymdeithasol cymhwyso cymeradwy.

Mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y niferoedd sy'n cael eu derbyn i'r radd mewn gwaith cymdeithasol, gan gynnwys:

- nifer yr ymgeiswyr a'u hansawdd
- meini prawf dewis
- gallu partneriaid y rhaglen i gynnig cyfleoedd dysgu ymarfer
- y niferoedd cymeradwy a osodwn.

Mae nifer y myfyrwyr sy'n dilyn y llwybr astudio academaidd amser llawn wedi gostwng. Fodd bynnag, mae cynnydd parhaus yn nifer y myfyrwyr ar secondiad o gyflogwyr, fel rhan o gynlluniau datblygu 'eich gweithlu eich hun' trwy ddysgu o bell.

Eleni eto, cynyddom y niferoedd cymeradwy ar gyfer y llwybr dysgu o bell i 70, i fodloni galwadau cyflogwyr a chynorthwyo â recriwtio myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Proffil demograffig myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Mae Ffigur 2 yn rhoi trosolwg o'r data demograffig rydym yn ei ddal am y myfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni. Mae'n cymharu'r pedair carfan ddiweddaraf o fyfyrwyr.

Mae proffil demograffig myfyrwyr gwaith cymdeithasol wedi bod yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n galonogol bod nifer y dynion sy'n ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi codi 3.7 y cant dros y pedair carfan ddiwethaf o fyfyrwyr. Mae'r myfyrwyr sy'n gallu defnyddio rhywfaint o Gymraeg / sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi cynyddu 6.2 y cant o gymharu â'r llynedd hefyd.

Ffigur 2

Categori	Carfan 2017 i 2018	Carfan 2018 i 2019	Carfan 2019 i 2020	Carfan 2020 i 2021
Oed cyfartalog	32 oed	31 oed	32 oed	32 oed
Rhywedd				
Benywaidd	88.4%	86%	84.8%	84.7%
Gwrywaidd	11.6%	14%	15.2%	15.3%
Ethnigrwydd				
Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol	6.4%	6.5%	5.5%	8.3%
Gwyn	93.6%	93.6%	94.5%	91.3%
Anabledd	3.8%	3.4%	4.5%	5.9%
Cyfeiriadedd rhywiol				
Heterorywiol/Syth	94%	93.4%	95.6%	94.0%
Hoyw neu lesbiad	2.8%	4.3%	2.6%	3.0%
Deurywiol	1.2%	2.3%	1.8%	3.0%
Gallu'r Gymraeg				
Ychydig/rhugl	52.1%	52.1%	55.1%	61.3%
Dim	47.9%	47.9%	44.9%	38.7%

Mae'r holl raglenni'n cydnabod yr angen i gynyddu amrywiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r graff yn dangos y bu cynnydd cyson yn nifer y myfyrwyr ag anabledd a'r myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n dilyn yr hyfforddiant.

Mae ystadegau data a dadansoddi addysg uwch (HESA) yn cefnogi'r canfyddiadau hyn. Adroddant: "Mae canran y myfyrwyr sy'n byw yn y DU ac sy'n Wyn wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n Asiaidd, Du neu o gefndiroedd ethnig eraill wedi cynyddu"².

Mae [gwefan](#) Gofalwn Cymru yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant trwy ddal hanesion a delweddau o bobl sy'n adlewyrchu'r gweithlu a'n poblogaeth. I ehangu cyfranogiad, bwriadwn dargedu cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith cymdeithasol fel gyrfa o ddewis. Byddwn yn defnyddio'r plattform hwn i ymgysylltu â phobl sy'n gwneud cais am hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac annog mwy o amrywiaeth yn eu plith.

Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cymhwys

Rydym yn cefnogi addysg a hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso trwy roi cymorth ariannol fel a ganlyn:

- grant datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cael ei dalu i bartneriaethau rhanbarthol. Dwy o saith blaenoriaeth genedlaethol y grant yw ariannu hyfforddiant cymhwys ac ôl-gymhwys gweithwyr cymdeithasol
- cyllid cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n cael ei dalu i awdurdodau lleol sy'n derbyn myfyrwyr
- grant i hybu a galluogi pobl sy'n cael gofal a chymorth, a gofalwyr, i gymryd rhan mewn addysg gweithwyr cymdeithasol
- bwrsariaethau a lwfans teithio i helpu rhai myfyrwyr i astudio yng Nghymru.

Rhoddom fwrsariaethau i 176 o'r 244 myfyriwr newydd gofrestru. Nid oedd gweddill y myfyrwyr yn gymwys i gael bwrsariaeth oherwydd:

- roeddent yn cael cefnogaeth ariannol gan eu cyflogwr
- roeddent yn dod o'r tu allan i Gymru
- roeddent yn ailadrodd astudiaethau'r flwyddyn gyntaf.

Mae Ffigur 3 yn darparu gwybodaeth am neilltuo bwrsariaethau ar gyfer y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ffigur 3

	Neilltuo bwrsariaethau 2019-20		Neilltuo bwrsariaethau 2020-21	
	Cyfanswm	Newydd	Cyfanswm	Newydd
Israddedig	331	128	320	108
Canran	69.2%	66.0%	67.5%	61.4%
Gradd Meistr	147	66	154	68
Canran	30.8%	34.0%	32.5%	38.6%
Cyfanswm	478	194	474	176

Cynyddodd canran y bwrsariaethau a dalwyd i fyfyrwyr gradd meistr 4.6 y cant ar gyfer 2020 i 2021. Cynnydd bach o ddau yn nifer y myfyrwyr gradd meistr a ddilynodd y rhaglen yn 2020 i 2021 oedd hwn.

Fodd bynnag, recriwtiwyd i 62 y cant yn unig o'r lleoedd hyfforddi ôl-raddedig a oedd ar gael. Mae adborth yn parhau i awgrymu bod y diffyg benthyciadau myfyrwyr i fyfyrwyr ôl-raddedig yn ffactor. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ôl-raddedig. Bydd y darn ymchwil a gomisiynwyd sy'n adolygu addysg gwaith cymdeithasol yn edrych hefyd ar opsiynau fydd ar gael yn y dyfodol i gefnogi'r rhaglenni'n ariannol a'r myfyrwyr sy'n eu dilyn.

Cyfraddau gadael rhaglenni cyn gorffen

Mae'r tabl nesaf yn nodi bod nifer o fyfyrwyr wedi gohirio'u hastudiaethau yn 2020 i 2021. Er nad yw'r rhesymau dros ohirio wedi'u cofnodi, credir bod effaith y pandemig a phryderon am brofiad dysgu'r myfyriwr yn ffactor sy'n cyfrannu. Ni chofnododd adroddiad y llynedd fod yr un myfyriwr wedi gohirio'i astudiaethau.

Ffigur 4

Statws cofrestru myfyrwyr	
Statws cofrestru myfyrwyr	244
Heb ddechrau	19
Wedi gohirio	11
Wedi tynnu'n ôl	9
Cyfeiriwyd	1
Cyfanswm	284

Mae cyfraddau gadael y rhaglenni cyn eu gorffen yn parhau'n isel. Y llynedd, adroddwyd bod 42 o fyfyrwyr wedi gadael y rhaglenni. Y flwyddyn academaidd hon, dewisodd 40 myfyriwr ar draws pob lefel hyfforddiant adael neu ni ddechreuont eu hastudiaethau.

Mae HESA yn cyhoeddi data bob dwy flynedd am y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i barhau neu sy'n gadael cyn gorffen. Hefyd, roedd y data diweddaraf sydd ar gael (2018 i 2019) yn edrych ar ddechreuwyd 2018 i 2019 yn 2019 i 2020. Adroddwyd ar hyn yn adroddiad sicrhau ansawdd y llynedd. Dangosodd y data sydd ar gael nad yw 6.8 y cant o fyfyrwyr ar draws prifysgolion Cymru'n parhau â'u hastudiaethau³. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'r flwyddyn nesaf.

Dysgu ymarfer

Darperir hyfforddiant cymhwysio gwaith cymdeithasol trwy bartneriaeth rhwng y sefydliad addysg uwch, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr cymunedol – gan gynnwys pobl sy'n cael gofal a chymorth, a gofawyr – a phartneriaid eraill. Mae gan y radd gwaith cymdeithasol ddull dysgu cyfunol lle y cynhelir 50 y cant o ddysgu'r myfyriwr mewn lleoliad academaidd a 50 y cant mewn ymarfer.

O gofio'r ymagwedd academaidd ac ymarfer gymysg at hyfforddiant cymhwysio, mae partneriaethau effeithiol yn hanfodol. Mae'r holl brifysgolion mewn partneriaeth ag o leiaf dri awdurdod lleol ac mae pob awdurdod lleol mewn partneriaeth ag o leiaf un brifysgol.


Mae dysgu ymarfer yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu, ymarfer a chael asesiadau ar eu cymhwysedd i gyflawni tasgau gwaith cymdeithasol. Mae gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn broffesiwn amrywiol sy'n cael ei ddarparu gan amrywiaeth o leoliadau, felly mae'n bwysig bod cyfleoedd dysgu ymarfer yn berthnasol ac yn cynrychioli'n fras y man lle mae'r gwaith cymdeithasol yn digwydd.

3. Mae'r wybodaeth ar gael yn [Cyhoeddiadau data sydd ar ddod | HESA](#)

Yn 2020 i 2021, darparwyd 567 o gyfleoedd dysgu ymarfer. Mae Ffigur 5 yn amlinellu'r ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ymarfer fesul sector ar draws tair lefel yr hyfforddiant cymhwys. Mae'r nifer cymharol is o gyfleoedd dysgu ymarfer Lefel 1 oherwydd:

- mae rhai rhaglenni'n cyfuno gofynion dysgu ymarfer Lefelau 1 a 2 yn un cyfle dysgu ymarfer
- caiff myfyrwyr dysgu o bell yr opsiwn i ddilyn llwybr portffolio i ddangos cymwyseddau Lefel 1
- nid oedd pedair rhaglen yn gallu darparu lleoliadau Lefel 1 oherwydd y pandemig a chymeradwyom addasiadau fel ymateb cymesur er mwyn rheoli effaith Covid-19 ar raglenni.

Ffigur 5



Adroddodd y rhaglenni cymhwys a'r partneriaid cysylltiedig am heriau parhaus dod o hyd i leoliadau trwy gydol y pandemig. Mae darparu lleoliadau yn rhithwir wedi bod yn broses ddysgu i bawb a oedd ynghlwm.

Mae'n rhaid bod asesiadau risg priodol wrth wraidd lleoliadau er mwyn sicrhau bod diogelwch a lles myfyrwyr yn cael eu blaenoriaethu. Cefnogwyd mesurau rheoli heintiau, fel cadw pellter cymdeithasol, a darparwyd cyfarpar diogelu personol (PPE) pan gynhaliwyd ymweliadau wyneb yn wyneb.

Ar ddechrau'r pandemig, cynhaliom sesiynau cymorth grŵp i'r rhaglenni a phartneriaid cysylltiedig. Cwblhaom arweiniad i gefnogi addysgwyr ymarfer eu rôl oherwydd y newidiadau mewn ymarfer a oedd yn gofyn bellach bod gweithwyr cymdeithasol yn cysylltu dros y we.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r rhaglenni a'r partneriaid i'w cynorthwyo a'u cynghori nhw ynghylch bodloni ein gofynion rheoleiddio a chanllawiau'r llywodraeth.

O dan ein rheolau, mae'n ofynnol bod yr holl fyfyrwyr yn cyflawni o leiaf un o'u cyfleoedd dysgu ymarfer hwy (Lefel 2 a Lefel 3) mewn gwasanaeth cymdeithasol awdurdod lleol.

Mae'r wybodaeth yn Ffigur 5 yn dangos bod partneriaethau rhaglenni'n parhau i ddiwallu'r gofyniad hwn.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, i ennill cipolwg i berthnasedd eu gwaith a sut y gall ategu gwasanaethau statudol. Awgrymodd adborth gan raglenni a'u partneriaid trwy gydol y pandemig fod effaith y pandemig ar y ffordd y gellid darparu gwasanaethau gwirfoddol yn golygu bod llai o lawer o leoliadau ar gael. Cafodd hyn effaith arwyddocaol ar leoliadau.


Mae Ffigur 6 yn dadansoddi ymhle y darparwyd cyfleoedd dysgu ymarfer yn ôl lleoliad gwasanaeth.

Effeithiwyd fwyaf ar leoliadau Lefel 1 ac adroddodd pedair rhaglen eu bod yn methu â chanfod lleoliadau a bwrw ymlaen â nhw. Mae'r rhain wedi cael eu symud ymlaen i'r flwyddyn academiaidd hon. Mae un rhaglen wedi cynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr yn yr elfen waith hon, ac mae diwrnodau ychwanegol eto'n cael eu symud ymlaen i'r flwyddyn academiaidd hon. Gwnaed y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â ni i wneud yn siŵr bod y safonau a'r gofynion yn parhau'n drylwyr ac yn cael eu cynnal.

Mae'r graff yn nodi, ar y cyfan, bod 8.11 y cant o'r holl leoliadau'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol ac annibynnol, ac fe'u rhennir fel a ganlyn:

- trodd myfyrwyr lefel 1 at 29 y cant
- trodd myfyrwyr lefel 2 at 18.85 y cant
- trodd myfyrwyr lefel 3 at 6.28 y cant.


Mae'r niferoedd hyn yn is o lawer na'r llynedd. Roedd hyn i'w ddisgwyl ac mae'n cefnogi'r adborth a gawsom am yr heriau a wynebwyd wrth ddod o hyd i gyfleoedd lleoliadau dysgu a'u cefnogi.

Ffigur 6

O ran lleoliadau gwasanaeth, mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd dysgu ymarfer hwy yn parhau i ddigwydd mewn timau gwaith cymdeithasol. Mae'r patrwm hwn yn debyg i batrwm y llynedd ac mae'n adlewyrchu llwyddiant parhaus timau gwaith cymdeithasol wrth ddarparu lleoliadau i fyfyrwyr Lefel 2 a Lefel 3. Hefyd, mae adborth yn awgrymu bod y diffyg lleoliadau eraill yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector wedi gosod mwy o alw ar y timau hyn.

Mae Ffigur 7 yn dangos y ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ymarfer yn ôl maes gwasanaeth a bod cynrychiolaeth dda o gyfleoedd am leoliadau mewn gwasanaethau plant ar Lefelau 2 a 3. Hefyd, mae lleoliadau'n cael eu darparu'n gymesur ar draws gwasanaethau oedolion a phlant ar gyfer y ddwy garfan hyn o fyfyrwyr.

Ffigur 7



O'r 217 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gofrestrodd gyda ni rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, cyflogwyd 183 ohonynt gan yr awdurdod lleol. O'r rhain, dyma'r 'prif grwpiau cleientiaid' y maen nhw'n gweithio gyda nhw:

Ffigur 8

Prif grŵp cleientiaid	Nifer	Canran
Plant	89	48.6%
Oedolion	61	33.3%
Oedolion a phlant	20	10.9%
Plant a theuluoedd	5	2.7%
Gofal cymdeithasol i oedolion	3	1.6%
Heb ei bennu	3	1.6%
Plant ag anabledau	1	0.5%
Iechyd meddwl	1	0.8%
Cyfanswm	183	100.0%

Eto, ymunodd y ganran fwyaf o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso â gwasanaethau plant ac mae hyn yn adlewyrchu data'r llynedd. Hefyd, mae hyn yn dangos ymhle mae'r swyddi gwag yn y proffesiwn. Recriwtiodd gwasanaethau oedolion 33 y cant o'r holl weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso. Mae'r 34 y cant sy'n weddill wedi ymuno â'r sector gwirfoddol neu'r trydydd sector.

Astudiaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'n rhaid bod gan bob rhaglen gynllun gweithredu'r Gymraeg i hyrwyddo a gwreiddio cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu a chael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ffigur 9 yn amlygu nifer y myfyrwyr a astudiodd bum credyd academaidd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2019 i 2020, a'r prifysgolion lle y buont yn astudio.

Ffigur 9 – 2019 i 2020

Prifysgol	5+ credyd wedi'u hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg	40+ credyd wedi'u hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg
Prifysgol Glyndŵr	5	1
Prifysgol Bangor	37	37
Prifysgol Abertawe	162*	105
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	0	0
Prifysgol De Cymru	0.7	0
Prifysgol Caerdydd	0	0
Y Brifysgol Agored	71	3
Ffynhonnell: HESA	* Cwblhaodd myfyrwyr fodiwl e-ddysgu Gwaith Cymdeithasol – Ymwybyddiaeth Iaith (MOOC) fel rhan o fodiwl dysgu mwy	

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni'u hyfforddiant cymhwysu mewn gwaith cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Brifysgol Agored yn datblygu modiwl digidol 15 credyd newydd yn cwmpasu'r Cynnig Rhagweithiol a chyd-destun Cymru mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe. Mae Ffigur 2 yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dilyn y rhaglenni wedi cynyddu 10.2 y cant ers carfan 2017 i 2018.

Addasrwydd i ymarfer

Cafodd ein tîm addasrwydd i ymarfer 10 atgyfeiriad yn ystod 2020 i 2021. Roedd hyn ddwywaith nifer y llynedd, ond mae'n llai o hyd nag yn 2019 i 2020.

O'r myfyrwyr y cawsant eu hatgyfeirio i'n tîm addasrwydd i ymarfer:

- atgyfeiriodd sefydliadau addysg uwch ddau o'u myfyrwyr fel rhan o'u prosesau addasrwydd
- atgyfeiriwyd un oherwydd ymddygiad amhriodol yn y gwaith
- atgyfeiriwyd tri oherwydd ymddygiad amhriodol y tu allan i'r gwaith
- atgyfeiriwyd tri oherwydd methiannau mewn ymarfer
- rhoddwyd cosb sefydlog i un myfyriwr.

Caewyd yr holl achosion yn dilyn ymchwiliad cychwynnol a chafodd tri myfyriwr rybuddion addasrwydd i ymarfer.

Darparodd aelodau o'n tîm addasrwydd i ymarfer gyflwyniadau rhithwir i'r rhaglenni gradd fel rhan o ymgynefino myfyrwyr â hyfforddiant cymhwyso. Mae adborth gan y prifysgolion yn parhau i fod yn gadarnhaol a gwerthfawrogir y sesiynau hyn o ran datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth myfyrwyr ynghylch y *Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol*, yn ogystal ag ymddygiad proffesiynol.

Adborth gan fyfyrwyr

Mae'r holl raglenni'n casglu adborth gan eu myfyrwyr, ar sawl ffurf wahanol. Defnyddir y wybodaeth i wella ansawdd yr addysg a ddarparant ac fe'i rhoddir i ni er mwyn llywio ein proses monitro blynyddol.

Thema gyffredin yn yr adborth fu effaith dysgu ar-lein ar fyfyrwyr. Er bod rhai datganiadau yn gadarnhaol ac mae myfyrwyr wedi dweud bod yn well ganddynt yr arddull ddysgu hon, roedd hyn yn heriol i lawer. Mae rhaglenni wedi ymateb trwy gyflwyno sesiynau dysgu byr, recordio sesiynau er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a gwneud grwpiau astudio'n llai, lle y bo'n bosibl, i annog myfyrwyr i gyfrannu'n fwy.

Mae arweinwyr rhaglenni wedi nodi angen am ofal bugeiliol ychwanegol trwy gydol y pandemig a dywedodd myfyrwyr eu bod wedi bod yn ddiolchgar am y cymorth unigol a gawsant gan eu tiwtoriaid personol. Yn ystod 2020 i 2021, comisiynom ymchwil er mwyn cael adborth manylach gan weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso am eu profiadau o gymhwyso a dechrau gweithio yn ystod y pandemig. Bydd y canfyddiadau'n llywio ein hymagwedd at sicrhau ansawdd yn y dyfodol ac, o bosibl, datblygu'r gweithlu.

b. Hyfforddiant ôl-gymhwyso

Mae'n rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol gwblhau 90 awr o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru ym mhob cyfnod cofrestru tair blynedd i gynnal eu cofrestrriad proffesiynol. Mae'r *Cod Ymarfer Proffesiynol Gwaith Cymdeithasol* yn datgan bod yn rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol "fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau"⁴.

Rydym wedi cael adroddiadau gan y sector am darfu difrifol ar ddarparu hyfforddiant a dysgu parhaus i fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus oherwydd y pandemig.

I ymateb i hynny, trafodom ni a Llywodraeth Cymru gyfnod ymestyn o 12 mis ar gyfer ailgofrestru. Rydym yn cydnabod bod gweithwyr gofal cymdeithasol wedi dysgu llawer yn ystod y pandemig a bu'n anodd dod o hyd i amser i wneud hyfforddiant ffurfiol.

Felly, bydd credyd o 45 awr o DPP yn cael ei roi i ymarferwyr sydd wedi gweithio yn ystod y pandemig.

Rydym yn cymeradwyo naw rhaglen ôl-gymhwyso yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- pum rhaglen asesu a goruchwylio myfyrwyr gwaith cymdeithasol/aseswyr ymarfer
- un rhaglen Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy
- un rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm
- dwy Raglen Gadarnhau.

Yn ôl y data a gawsom fel rhan o fonitro blynyddol rhaglenni cymeradwy, roedd tua 422 o weithwyr cymdeithasol wedi ymrestru ar raglenni yn ystod blwyddyn academiaidd 2019 i 2020. Cofnododd adroddiad sicrhau ansawdd y llynedd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018 i 2019 fod 552 o weithwyr cymdeithasol wedi ymrestru ar raglenni, sy'n golygu gostyngiad o 100 o weithwyr cymdeithasol. Yn ôl adroddiadau, y pandemig a diffyg opsiwn y rhaglenni Ymarferwr Gwaith Cymdeithasol Profiadol/Uwch ac Ymgynghorol neu DAPP ar gyfer hyfforddiant ôl-gymhwyso mwyach yw'r ffactorau sy'n cyfrannu.

Gohiriwyd un o'r rhaglenni asesu a goruchwylio myfyrwyr gwaith cymdeithasol oherwydd tarfu ac effaith Covid. Oherwydd cafodd lleoliadau myfyrwyr eu gohirio, ni allai addysgwyr ymarfer dan hyfforddiant barhau â'u hastudiaethau gan na fyddent yn bodloni deilliannau dysgu gofynnol y rhaglen.

Ni chynhaliwyd un rhaglen y flwyddyn flaenorol oherwydd diffyg myfyrwyr (nad oedd yn gysylltiedig â Covid) a 58 o addysgwyr ymarfer a enillodd eu dyfarniad yn 2020. Hefyd, mae'r graff isod yn nodi nifer yr ymgeiswyr a ohiriodd eu hastudiaethau ac mae'r adborth a gafwyd yn awgrymu mai'r pandemig fu'r prif reswm dros hyn.

Mae ein rheolau yn mynnu bod rhaglenni gradd yn sicrhau:

(b) bod digon o addysgwyr ymarfer (fel y disgrifir ym mharagraff 6(1)(j)) i asesu myfyrwyr ym mhob cyfnod dysgu ymarfer⁵

4. *Y Cod Ymarfer Proffesiynol Gwaith Cymdeithasol* | Adran 6

5. [Y fframwaith ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru.](#)

Eleni, gwelwyd gostyngiad arall yn nifer yr addysgwyr ymarfer a gwblhaodd eu dyfarniad. Mae'r pandemig wedi tarfu'n ddifrifol ar y rhaglenni hyn ac mae'r adborth gan y rhaglenni a'r partneriaid yn cynghori bod nifer yr addysgwyr ymarfer annibynnol yn gostwng hefyd.

Ffigur 10 – 2019 i 20

Myfyrwyr sy'n ymrestru ar raglenni asesu a goruchwylio myfyrwyr gwaith cymdeithasol	101
Wedi dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	11
Wedi gohirio	15
Wedi'u hatgyfeirio	19
Wedi methu	6
Wedi cwblhau a phasio	58

Rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus

Fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd ar ôl 1 Ebrill 2016 gwblhau Rhaglen Gadarnhau yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod cofrestru cyntaf pan fyddant yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol. Mae ymgymryd â'r Rhaglen Gadarnhau yn elfen hanfodol o fframwaith y *Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer*⁶. Mae'r rhaglen hefyd o fudd i bobl sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl saib a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y DU am y tro cyntaf. Yn 2019 i 2020, ymrestrodd 253 o ymgeiswyr ar Raglenni Cadarnhau, cwblhaodd 183 ohonynt y rhaglen yn llwyddiannus a methodd 17 o fyfyrwyr.

Yn unol â rheoliadau academiaidd, cafodd y myfyrwyr hyn gyfleoedd pellach i ailgyflwyno'u gwaith. Bydd y 53 myfyriwr sy'n weddill yn bwrw'u hastudiaethau ymlaen i'r flwyddyn academiaidd nesaf. Mae'r ffigur ymrestru wedi gostwng 19 ymgeisydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus wedi gostwng gan 12.

Mae'r pandemig wedi tarfu hefyd ar yr adolygiad o'r fframwaith ôl-gymhwyso sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol. Mae hyn yn symud yn ei flaen ac mae'n debygol y caiff ei gwblhau yn 2021 i 2022 nawr. Bydd hyn yn ystyried y gwaith paratoadol y bydd ei angen i roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith o Ebrill 2022 ymlaen a chyflwyno rôl newydd Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy.

Adborth myfyrwyr o raglenni ôl-gymhwyso

Mae adborth eleni yn awgrymu bod ymgeiswyr yn ei chael hi'n fwyfwy anodd astudio ac ymarfer. Mae lefelau staffio a blaenoriaethau gwasanaethau wedi effeithio ar eu gallu i gael amser astudio gwarchoddedig. Mae adborth arall yn awgrymu bod ymgeiswyr wedi gwerthfawrogi'r cymorth y mae tiwtoriaid wedi'i gynnig yn ystod y pandemig a bod ymgysylltu ag academyddion ac ailgydio yn eu hastudiaethau personol wedi bod yn bositif iddynt.

Themâu monitro blynyddol

Mae ein monitro blynyddol yn mesur sut mae darpariaeth addysg gwaith cymdeithasol yn cyflawni yn erbyn set o ddangosyddion, i asesu'r cryfderau a'r risgiau posibl mewn rhaglenni penodol. Dyma'r dangosyddion:

- mae'r rhaglen yn bodloni safonau cyhoeddedig⁷
- mae'r rhaglen yn parhau i ddatblygu a chanolbwyntio ar wella
- cael systemau ar gyfer gwerthuso a chraffu, a'u defnyddio
- hyder myfyrwyr a phartneriaid.

Gall ein hadborth i raglenni gynnwys:

- gosod amodau i sicrhau bod rhaglenni'n parhau i fodloni ein gofynion cymeradwyo
- gwneud argymhellion, sy'n cyfrannu at well ansawdd rhaglenni.

Fel rhan o'n gweithgarwch monitro blynyddol ar gyfer 2020 i 2021, gosodom un amod a gwneud 15 argymhelliad i raglenni gradd cymhwys cymeradwyo. Hefyd, gwnaethom 17 o argymhellion i raglenni ôl-gymhwys cymeradwy.

Cyfeiriodd yr amod at weithgarwch ailddilysu rhaglen a bodloni'r rheolau cymeradwyo.

Roedd yr argymhellion a wnaethom yn cynnwys:

- rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i gynlluniau wrth gefn y coronafeirws
- diweddarau canllawiau i fyfyrwyr a gwybodaeth mewn llawlyfrau rhaglenni
- rhoi adborth ansoddol i ni gan fyfyrwyr i gyfrannu at gynlluniau gwella ac ymestyn y flwyddyn nesaf
- rhoi gwybod i ni am gynlluniau ailddilysu ar gyfer rhaglenni, yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Gofynnem i raglenni roi ymateb ysgrifenedig i'r monitro blynyddol erbyn dyddiad gosod, neu ddarparu tystiolaeth benodol yn y cylch monitro blynyddol nesaf.

Rydym yn cydnabod yr effaith mae pandemig y coronafeirws yn parhau i'w chael ar raglenni a'r angen iddynt addasu a rhoi newidiadau ar waith yn gyson.

Eleni, dywed rhaglenni eu bod yn parhau i ddarparu dull addysgu cyfunol, hynny yw, rhywfaint o addysgu wyneb yn wyneb (pan fo'n ddiogel gwneud hynny) a rhywfaint o addysgu ar-lein.

7. Caiff y rhain eu grwpio o dan weithio mewn partneriaeth, darpariaeth adnoddau, dysgu ac asesu, polisiau a gweithdrefnau, a sicrhau ansawdd.